Cofnodion **CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda ac yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 6 Rhagfyr 2023, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs. J. Evans, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. R. Roberts, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd Mrs. E. Chard
Y Cynghorydd A. James (arsylwr)
Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (arsylwr)

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**29. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Mellor a Miss S. Roberts.

**30. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth bob cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs. D. King fuddiant personol yng nghais rhif 45/2023/0664]**

| RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 30.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** The Swan, 13 Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine |

| | |
|---|---|
| | **<u>CAIS RHIF</u>:** 45/2023/0759<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Arddangos arwyddion newydd yng nghyswllt tafarn a goleuo cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Valliant Pub Company, Ystafell 205, Guildhall Building, Navigation Street, Birmingham<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad [ond nodi ei fod yn Adeilad Rhestredig]* |
| 30.2 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 157 – 159 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Pendyffryn<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: A.J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**<u>CAIS RHIF</u>:** 45/2023/0664<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid defnydd canolfan ddydd i blant i ffurfio tri annedd a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Chris Walsh, Walsh Commercial Properties, 161 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 30.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 106 Ffordd y Cilgant, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Foryd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**<u>CAIS RHIF</u>:** 45/2023/0681<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Adeiladu estyniad unllawr ar yr ochr a newid y garej yn y cefn a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr. S. Ghani, o'r cyfeiriad uchod<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| 30.4 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 7 Rhodfa Redwood, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Brynhedydd<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: B. Mellor<br>S. Feeney<br><br>**<u>CAIS RHIF</u>:** 45/2023/0778<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Adeiladu garej<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr a Mrs Ron & Irene Gill, o'r cyfeiriad uchod |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**31 APÊL CYNLLUNIO 45/2022/0922: APÊL RHIF CAS-03059-T7P7J1**
**32 RHODFA WEAVERTON, Y RHYL**

Cynghorodd y Cadeirydd y cyflwynwyd apêl gan yr ymgeiswyr yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ynghylch y cais uchod.

***PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.*

**32. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi diweddu.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …..20.12.2023………..